

# *Emynau a Darlleniadau Hymns and Readings*

## **Yr Pedwerydd Sul wedi'r Drindod**

23 Mehefin 2024

Cymun Bendigaid ar Gân • tudalen 2

Gosber ar Gân • tudalen 16

Hysbys • tudalen 22


## **The Fourth Sunday after Trinity**

23 June 2024

Choral Holy Eucharist • page 9


Choral Evensong • page 16

Notices • page 22




**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor



# yn y Cymun



## Gosodiad cerddorol

Cymun Sant Dogfan, Brian Evans

## Llywydd

Y Canon dros Fywyd Cynulledifaol

## Pregethwr

Y Canon Emeritws

## Emyn Gorymdeithiol



**R**ho d'arweiniad, Arglwydd tirion,  
i'th lân Eglwys yn ein tir:  
i'w hofferiaid a'i hesgobion  
dyro weledigaeth glir:  
gwna'i haelodau yn ganghennau  
ffrwythlon o'r Winwydden wir.

Boed i gadarn ffydd ein tadau  
gadw d'Eglwys rhag sarhad:  
boed i ras ein hordinhadau  
buro a sancteiddio'n gwlad:  
boed i'w gwyliau a'i hymprydiau  
chwyddo'r mawl yn nhŷ ein Tad.



Ymddiried yn Nuw a gwna ddaioni, iti gael byw yn y wlad mewn cymdeithas ddiogel.

Ymhyfryda yn Nuw, a rhydd iti ddeisyfiad dy galon.

## **R̄ Tyn fi o'r rhwyd a daenwyd im'; ti yw fy ngrym mewn anial dir.**

Rho dy ffyrdd i Dduw; ymddirieda'n y Sanctaidd Un, ac fe weithreda.

Fe wna i'th gywirdeb ddisgleirio fel goleuni a'th uniondeb fel haul canol dydd.

## **R̄ Tyn fi o'r rhwyd a daenwyd im'; ti yw fy ngrym mewn anial dir.**

**Salm 37:1-6**  
**Cerddoriaeth**  
Sam Jones

### **Darlleniad**

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at y Colosiaid.

**G**aredigion: Fel etholedigion Duw, sanctaidd ac annwyl, gwisgwch am-danoch dynerwch calon, caredigrwydd, gostyngeddwydd, addfwynder ac amynedd. Goddefwch eich gilydd, a maddeuwch i'ch gilydd os bydd gan rywun gwyn yn erbyn rhywun arall; fel y maddeuodd y Sanctaidd i chwi, felly gwnewch chwithau. Tros y rhain i gyd gwisgwch gariad, sy'n rhwymyn perffeithrwydd. Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn eich calonnau; i hyn y cawsoch eich galw, yn un corff. A byddwch yn ddiolchgar. Bydded i air Crist breswyllo ynoch yn ei gyfoeth. Dysgwch a rhybuddiwch eich gilydd gyda phob doethineb. Â chalonnau diolchgar canwch i Dduw salmau ac emynau a chaniadau ysbrydol. Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw Iesu Sanct Duw, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.

Clywch air bywyd i'n byd.

### **Diolch a fo i Dduw.**

**Colosiaid 3:12-17**



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. R Haleliwia. Haleliwia.  
Haleliwia. Y Gwisgwch gariad, sy'n rhwymyn perffeithrwydd.  
R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Y Fy mwyd i yw gwneud  
ewylllys yr un a'm hanfonodd, a gorffen y gwaith a roddwyd i mi.  
R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.  
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.  
**Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Roedd y disgyblion yn cymell Iesu, gan ddweud, "Rabbi, cymer fwyd." Dywedodd ef wrthynt, "Y mae gennyf fi fwyd i'w fwyta na wyddoch chi ddim amdano." Ar hynny, dechreuodd y disgyblion ofyn i'w gilydd, "A oes rhywun, tybed, wedi dod â bwyd iddo?" Meddai Iesu wrthynt, "Fy mwyd i yw gwneud ewylllys yr un a'm hanfonodd, a gorffen y gwaith a roddwyd i mi. Oni fyddwch chi'n dweud, 'Pedwar mis eto, ac yna daw'r cynhaeaf'? Ond dyma fi'n dweud wrthynt, codwch eich llygaid ac edrychwch ar y meysydd, oherwydd y maent yn wyn ac yn barod i'w cynaeafu. Eisoes y mae'r medelwr yn derbyn ei dâl ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragwyddol, ac felly bydd yr heuwr a'r medelwr yn cydlawenhau. Yn hyn o beth y mae'r dywediad yn wir: 'Y mae un yn hau ac un arall yn medi.' Anfonais chi i fedi cynhaeaf nad ydych wedi llafurio amdano. Eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.  
**Moliant i ti, O Grist.**

Ioan 4:31-38

## Ymadawu Ysgolheigion

Gwahoddir Ysgolheigion Ymadawol ymlaen ar ôl y Credo

Mae Hannah, Sarah, Nemo, Holly a Seb yn dod i ddiwedd eu cyfnod fel Ysgolheigion yng Nghôr y Gadeirlan hon, ac felly gofynnwn am fendith Duw arnynt wrth iddynt baratoi ar gyfer eu hymdrechion yn y dyfodol.

Bydded i Dduw a ddechreuodd y gwaith da hwn ynoch ei gwblhau, gan eich galluogi i ddefnyddio eich doniau i'r eithaf. Bydded i Dduw roi'r gras i chi wneud dewisiadau doeth, ac i fod yn ffyddlon i'ch ymrwymadau. Bydded i Dduw eich bendithio â doethineb, er mwyn i'r hyn yr ydych yn ei gredu yn eich calonnau ei ddangos yn eich bywydau. Bydded i Dduw yn gwyltio eich mynd a'ch dod yn awr a hyd byth.

**Amen.**

Mae'r Ysgolheigion yn dychwelyd i'r stondinau ac mae'r gwasanaeth yn parhau gyda'r Ymbiliau

## Emyn yr Offrwm



**C**ofiw'n am gomisiwn Iesu  
cyn ei fyned at y Tad:  
"Ewch, pregethwch yr Efengyl,  
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad."  
Deil yr Iesu eto i alw  
yn ein dyddiau ninnau nawr;  
ef sy'n codi ac yn anfon  
gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.

**Cofiw'n am addewid Iesu  
adeg ei ddyrchafael ef:  
"Byddaf gyda chwi'n wastadol  
pan ddaw arnoch nerth o'r nef."  
Daeth ei Ysbryd Glân fel golau  
anorchfygol newydd wawr,  
gan aeddfedu gwedd y meysydd  
erbyn y cynhaeaf mawr.**

**Cofiw'n heddiw mewn cywilydd  
am fod drain ac efrau'n bla  
yn dolurio wyneb daear  
ac yn tagu'r tyfiant da:  
ond mae gwaith yr Iesu'n allu  
mwy na phechod dua'r llawr;  
ein hanrhydedd ydyw arddel  
meistr y cynhaeaf mawr.**

**Geiriau**

John Roberts (1910-1984)

**Cerddoriaeth | "Blaenwern"**

William Penfro Rowlands (1860-1937)

## Motét

Cenwch lafar gân i'r Arglwydd Duw, wledydd byd. Dewch dan lawen floeddio, plygwch lin o'i flaen ef dan ganu. Ef, chwy wyddoch, ef sydd yn Dduw; nid ni greodd ni'n hunain, ond ef a'n gwnaeth ni; ei bobl ef ym ni a phreiddiau ei borfa. O dewch i mewn i'w byrth gyda diolch, i gyntedd ei dŷ â mawl: rowch ddiolch iddo ef, bendithiwch Dduw. Canys da yw'r lôr; ei ras sydd o dragwyddoldeb, ac fe saif gwirionedd gwyfol trwy yr oesau. Boed gogoniant i'n Harglwydd, ac i'w Fab, ac i'r Ysbryd Glân; fel yr oedd yn y dechreuad, y mae ac y bydd hyd byth, i barhau mwy. Amen.

**Geiriau**

Salm 100

**Efelychiad**

Gwilym Henry Jones

**Cerddoriaeth**

Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012)



**C**yfamod hedd, cyfamod cadarn Duw,  
ni syfl o'i le, nid ie a nage yw;  
cyfamod gwir, ni chyfnewidir chwaith;  
er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

Cyfamod rhad, o drefniad Un yn Dri,  
hen air y llw a droes yn elw i ni;  
mae'n ddigon cry' i'n codi i fyny'n fyw,  
ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

Cyfamod cry', pwy ato ddyry ddim?  
Nid byd na bedd all dorri'i ryfedd rym;  
diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd,  
nid siglo mae fel gweinion bethau'r byd.

Er llithro i'r llaid a llygru defaid Duw  
cyfamod sy i'w codi i fyny'n fyw,  
a golchi i gyd eu holl aflendid hwy,  
a'u dwyn o'r bedd heb ddim amhuredd mwy.

**Geiriau**


Edward Jones (1761-1836)

**Cerddoriaeth** | "Navarre"

Louis Bourgeois (1510-1561)



# at the Eucharist



## Musical setting

**Communion Service in C & F**, Charles Villiers Stanford (1852-1924)

## Celebrant

The Canon for Congregational Life

## Preacher

The University & Community Chaplain

## Processional Hymn



**O** praise ye the Lord! Praise him in the height;  
rejoice in his word, ye angels of light;  
ye heavens adore him by whom ye were made,  
and worship before him, in brightness arrayed.

**O** praise ye the Lord! Praise him upon earth,  
in tuneful accord, ye sons of new birth;  
praise him who hath brought you his grace from above,  
praise him who hath taught you to sing of his love.

**O praise ye the Lord, all things that give sound;  
each jubilant chord re-echo around;  
loud organs, his glory forth tell in deep tone,  
and sweet harp, the story of what he hath done.**

**O praise ye the Lord! Thanksgiving and song  
to him be outpoured all ages along:  
for love in creation, for heaven restored,  
for grace of salvation, O praise ye the Lord!**



**Amen, Amen!**

**Words**

Henry William Baker (1821-1877)

**Music | "Laudate Dominum"**

Charles Hubert Hastings Parry (1848-1918)

### Sentence

"Take delight in God, who shall give you your heart's desire."

### Collect

Let us pray.

**G**o before us, O God, with your most gracious favour, and further us with your continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in you, we may glorify your holy Name, and finally by your mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour.

**Amen.**

### Psalmody

Do not fret yourself because of evildoers; do not be jealous of those who do wrong.

For they shall soon wither like the grass, and like the green grass fade away.

Put your trust in God and do good; dwell in the land and feed on its riches.

Take delight in God, who shall give you your heart's desire.

Commit your way to God and put your trust in God, who will bring it to pass.

God will make your righteousness as clear as the light and your just dealing as the noonday.

**Psalm 37:1-6**

**Music**

Michael Woods (fl.1565-1569)

## Reading

A reading from the Epistle of Saint Paul to the Colossians.

**D**eary beloved: As God's chosen ones, holy and beloved, clothe yourselves with compassion, kindness, humility, meekness, and patience. Bear with one another and, if anyone has a complaint against another, forgive each other; just as the Holy One has forgiven you, so you also must forgive. Above all, clothe yourselves with love, which binds everything together in perfect harmony. And let the peace of Christ rule in your hearts, to which indeed you were called in the one body. And be thankful. Let the word of Christ dwell in you richly; teach and admonish one another in all wisdom; and with gratitude in your hearts sing psalms, hymns, and spiritual songs to God. And whatever you do, in word or deed, do everything in the name of Jesus, the Holy One of God, giving thanks to God the Father through him.

Hear the word of life to the world.

**Thanks be to God.**

**Colossians 3:12-17**

## Gospel



∩ Alleluia. Alleluia. Alleluia. R Alleluia. Alleluia. Alleluia.

∩ Clothe yourselves with love, which binds everything together in perfect harmony. R Alleluia. Alleluia. Alleluia. ∩ My food is to do the will of the one who sent me and to complete the work given to me. R Alleluia. Alleluia. Alleluia.

Grace and peace be with you.

## **And keep you in the love of Christ.**

Listen to the Holy Gospel according to ✠ Saint John.

## **Glory to you, O Christ.**

**A**t that time: The disciples were urging Jesus, "Rabbi, eat something." But he said to them, "I have food to eat that you do not know about." So the disciples said to one another, "Surely no one has brought him something to eat?" Jesus said to them, "My food is to do the will of the one who sent me and to complete the work given to me. Do you not say, 'Four months more, then comes the harvest'? But I tell you, look around you, and see how the fields are ripe for harvesting. The reaper is already receiving wages and is gathering fruit for eternal life, so that sower and reaper may rejoice together. For here the saying holds true, 'One sows and another reaps.' I sent you to reap that for which you did not labour. Others have laboured, and you have entered into their labour."

This is the Gospel of our Saviour.

## **Praise to you, O Christ.**

**John 4:31-38**

## **Valediction of Scholars**

Departing Scholars are invited forward after the Creed

Hannah, Sarah, Nemo, Holly and Seb are coming to the end of their time as Scholars in this Cathedral Choir, and so we ask for God's blessing upon them as they prepare for their future endeavours.

May God who began this good work in you carry it to completion, enabling you to use your talents to the fullest. May God give you the grace to make wise choices, and to be faithful to your commitments. May God bless you with wisdom, that what you believe in your hearts you may show forth in your lives. May God preserve your going out and your coming in, from this time forth and for evermore.

**Amen.**

The Scholars return to the stalls and the service continues with the Intercessions


## Offertory Hymn



**O** thou, who at thy Eucharist didst pray  
that all thy Church might be for ever one,  
grant us at every Eucharist to say  
with longing heart and soul, "Thy will be done":  
O may we all one bread, one body be,  
through this blest sacrament of unity.

For all thy Church, O Lord, we intercede;  
make thou our sad divisions soon to cease;  
draw us the nearer each to each, we plead,  
by drawing all to thee, O Prince of Peace:  
thus may we all one bread, one body be,  
through this blest sacrament of unity.

We pray thee too for wanderers from thy fold;  
O bring them back, good Shepherd of the sheep,  
back to the faith which saints believed of old,  
back to the Church which still that faith doth keep:  
soon may we all one bread, one body be,  
through this blest sacrament of unity.



**So, Lord, at length when sacraments shall cease,  
may we be one with all thy Church above,  
one with thy saints in one unbroken peace,  
one with thy saints in one unbounded love:  
more blessèd still, in peace and love to be  
one with the Trinity in Unity.**

**Words**

William Henry Turton (1856-1938)

**Music | "Song 1"**

Orlando Gibbons (1583-1625)

## Motet

Beati quorum via integra est, qui ambulant in lege Domini.

*Translation*

*Happy are those whose way is blameless, who  
walk in the law of the Lord.*

**Words**


Psalms 119:1

**Music**

Charles Villiers Stanford (1852-1924)



# *yn y Gosber ar Gân* *at Choral Evensong*



## **Gosodiad yr Ymatebion | Setting of the Responses**

Bernard Rose (1916-1996)

## **Gosodiad y Cantiglau | Setting of the Canticles**

**Gwasanaeth Hwyrrol yn C | Evening Service in C,**

Charles Villiers Stanford (1852-1924)

## **Brawddeg Sentence**

“Ymhyfryda yn Nuw, a rhydd iti ddeisyfiad dy galon.”

“Take delight in God, who shall give you your heart’s desire.”

## **Emyn Hymn**



**L**ight of the minds that know him,  
may Christ be light to mine!  
My sun in risen splendour,  
my light of truth divine;  
my guide in doubt and darkness,  
my true and living way,



**my clear light ever shining,  
my dawn of heaven's day.**

**Life of the souls that love him,  
may Christ be ours indeed!  
the living bread from heaven  
on whom our spirits feed;  
who died for love of sinners  
to bear our guilty load,  
and make of life's brief journey  
a new Emmaus road.**

**Strength of the wills that serve him,  
may Christ be strength to me,  
who stilled the storm and tempest,  
who calmed the tossing sea;  
his Spirit's power to move me,  
his will to master mine,  
his cross to carry daily  
and conquer in his sign.**

**May it be ours to know him  
that we may truly love,  
and loving, fully serve him  
as serve the saints above;  
till in that home of glory  
with fadeless splendour bright,  
we serve in perfect freedom  
our strength, our life, our light.**

**Geiriau | Words**

Awstin o Hippo | Augustine of Hippo (354-430)

**Cerddoriaeth | Music | "King's Lynn"**

Alaw werin Seisnig | English folk tune

## **Salmyddiaeth** **Psalmody**

O give thanks unto the Lord, for he is gracious: and his mercy endureth for ever;

This let them say whom the Lord hath redeemed: whom he hath redeemed from the hand of the enemy,

And gathered them out of the lands, from the east and from the west: from the north and from the south.

They that went down to the sea in ships: and occupied their business in great waters,

These men saw the works of the Lord: and his wonders in the deep.

For at his word the stormy wind arose: which lifted up the waves thereof.

They were carried up to heaven and down again to the depths: their heart melted away because of their evil plight.

They reeled to and fro and staggered like a drunken man: and were at their wits' end.

Then they cried unto the Lord in their trouble: and he delivered them out of their distress.

He made the storm to cease: and the waves thereof were still.

Then were they glad because they were at rest: and so he brought them unto the haven where they would be.

O that men would therefore praise the Lord for his goodness: and for the wonders that he doeth for the children of men,

That they would exalt him in the assembly of the people: and praise him in the seat of the elders.

### Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

**Salm | Psalm 107:1-3, 23-32**

**Cerddoriaeth | Music**

Thomas Jackson (1715-1781), Thomas Attwood (1765-1838)

## Llith o'r Hen Destament Lesson from the Old Testament

Here begins the thirty-eighth chapter of the Book of Job.

**H**appy is the one whom God reproves: The Lord answered Job out of the whirlwind: "Who is this that darkens counsel by words without knowledge? Gird up your loins like a man, I will question you, and you shall declare to me. Where were you when I laid the foundation of the earth? Tell me, if you have understanding. Who determined

its measurements—surely you know! Or who stretched the line upon it? On what were its bases sunk, or who laid its cornerstone when the morning stars sang together and all the heavenly beings shouted for joy? Or who shut in the sea with doors when it burst out from the womb?—when I made the clouds its garment, and thick darkness its swaddling band, and prescribed bounds for it, and set bars and doors, and said, ‘Thus far shall you come, and no farther, and here shall your proud waves be stopped’?

Here ends the First Lesson.

**Job 38:1-11**

## Llith o'r Testament Newydd Lesson from the New Testament

Yma y mae yn dechrau pymthegfed adnod ar hugain pedwaredd bennod yr Efyngyl yn ôl Sant Marc.

**B**ryd hynny: A'r diwrnod hwnnw, gyda'r nos, dywedodd Iesu wrthynt, "Awn drosodd i'r ochr draw." A gadawsant y dyrfa, a mynd ag ef yn y cwch fel yr oedd; yr oedd cychod eraill hefyd gydag ef. Cododd tymestl fawr o wynt, ac yr oedd y tonnau'n ymdaflu i'r cwch, nes ei fod erbyn hyn yn llenwi. Yr oedd ef yn starn y cwch yn cysgu ar glustog. Deffroesant ef a dweud wrtho, "Athro, a wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?" Ac fe ddeffrôdd a cheryddu'r gwynt a dweud wrth y môr, "Bydd ddistaw! Bydd dawel!" Gostegodd y gwynt, a bu tawelwch mawr. A dywedodd wrthynt, "Pam y mae arnoch ofn? Sut yr ydych heb ffydd o hyd?" Daeth ofn dirfawr arnynt, ac meddent wrth ei gilydd, "Pwy ynteu yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo."

Yma y terfyn yr Ail Lith.

### Translation

*At that time: On that day, when evening had come, Jesus said to them, 'Let us go across to the other side.' And leaving the crowd behind, they took him with them in the boat, just as he was. Other boats were with him. A great gale arose, and the waves beat into the boat, so that the boat was already being swamped. But he was in the stern, asleep on the cushion; and they woke him up and said to him, 'Teacher, do you not care that we are perishing?' He woke up and rebuked the wind, and said to the sea, 'Peace!*

*Be still!’ Then the wind ceased, and there was a dead calm. He said to them, ‘Why are you afraid? Have you still no faith?’ And they were filled with great awe and said to one another, ‘Who then is this, that even the wind and the sea obey him?’*

**Marc | Mark 4:35-41**

## Gweddï Gasgl y Dydd **Collect of the Day**

**R**hagflaena ni, O Dduw, â’th ragorol ras, a hyrwydda ni â’th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o’u cychwyn i’w cwblhau ynot ti, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael o’r diwedd, gan dy drugaredd, lawnder bywyd; trwy Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

### *Translation*

*Go before us, O God, with your most gracious favour, and further us with your continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in you, we may glorify your holy Name, and finally by your mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour. Amen.*

## **Anthem**

Os justi meditabitur sapientiam: et lingua ejus loquetur iudicium. Lex Dei ejus in corde ipsius: et non supplantabuntur gressus ejus. Alleluia. Inveni David servum meum, oleo sancto meo unxi eum. Alleluia.

### *Cyfieithiad*

*Y mae genau’r cyfiawn yn llefaru doethineb, a’i dafod yn mynegi barn; y mae cyfraith ei Dduw yn ei galon, ac nid yw ei gamau’n methu. Cefais Ddafydd, fy ngwas, a’i eneinio â’m holew sanctaidd.*

### *Translation*

*The mouths of the righteous utter wisdom, and their tongues speak justice. The law of their God is in their hearts; their steps do not slip. I have found my servant David; with my holy oil I have anointed him.*

### **Geiriau | Words**

Salmu | Psalms 37:30-31; 89:20

### **Cerddoriaeth | Music**

Anton Bruckner (1824-1896)

## Emyn Hymn



**B**e thou my vision, O Lord of my heart,  
be all else but naught to me, save that thou art;  
be thou my best thought in the day and the night,  
both waking and sleeping, thy presence my light.

Be thou my wisdom, be thou my true word,  
be thou ever with me and I with thee, Lord;  
be thou my great Father, and I thy true son;  
be thou in me dwelling and I with thee one.

Be thou my breastplate, my sword for the fight;  
be thou my whole armour, be thou my true might;  
be thou my soul's shelter, be thou my strong tower:  
O raise thou me heavenward, great Power of my power.

Riches I heed not, nor man's empty praise:  
be thou mine inheritance now and always;  
be thou and thou only the first in my heart;  
O Sovereign of heaven, my treasure thou art.

High King of heaven, thou heaven's bright Sun,  
O grant me its joys after victory is won;  
great Heart of my own heart, whatever befall,  
still be thou my vision, O Ruler of all.

### Geiriau | Words

Gwyddeleg o'r wythfed ganrif | Eighth century Irish


### Cyfieithiad | Translation

Mary Elizabeth Byrne (1880-1931)

### Cerddoriaeth | Music | "Slane"

Alaw werin Wyddelig | Irish folk tune

# Hysbys Notices



## Ordeiniad

Bydd ein is-ganon, Y Parchg Josie Godfrey, yn cael ei ordeinio'n offeiriad ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin am 11am. Byddai Josie wrth ei bodd yn gweld cymaint o bobl â phosibl o deulu'r gadeirlan sydd wedi bod gyda hi ar ei thaith i'r weinidogaeth ordeiniedig dros y 12 mis diwethaf. Mae croeso i bawb i'r gwasanaeth - dim angen tocynnau, ond os ydych yn bwriadu bod yno, a fydddech cystal ag anfon e-bost at [mereridmorganwilliams@cinw.org.uk](mailto:mereridmorganwilliams@cinw.org.uk) fel bod gennym syniad o'r niferoedd ar gyfer seddi ac arlwyo wedyn. Cadwch Josie yn eich gweddïau wrth iddi baratoi i ddechrau ei gweinidogaeth offeiriadol.

## Cinio Dewch a Rhannu

Dyddiad i'ch dyddiadur: bydd y cinio dewch a'r rhannu nesaf yn dilyn y Choral Holy Eucharist am 11am ddydd Sul 30 Mehefin. Y gwasanaeth hon fydd y tro cyntaf i'r Parchg Josie Godfrey lywyddu'r cymun yn dilyn ei hordeiniad y diwrnod cynt - dewch draw i'w chefnogi. Siaradwch â Jane Coutts am ba fwyd sydd angen dod.

## Gosber ar Gân a Chamau Bach

Ni fydd Camau Bach neu Gosber dydd Mawrth yr wythnos hon oherwydd fydd digwyddiad yn y Gadeirlan.

## Datganiadau Cerdd Dydd Iau

Pob dydd Iau  
1.15pm am 45 munud

**27 Mehefin | Triawd Baróc**

## Ordination

Our minor canon, The Rev'd Josie Godfrey, will be ordained as a priest on Saturday 29th June at 11am. Josie would love to see as many people as possible from the cathedral family who've been with her on her journey into ordained ministry over the last 12 months. Everyone is welcome to the service - no tickets needed, but if you plan to be there, could you email [mereridmorganwilliams@cinw.org.uk](mailto:mereridmorganwilliams@cinw.org.uk) so we have an idea of numbers for seating and catering afterwards. Please keep Josie in your prayers as she prepares to start her priestly ministry.

## Bring and Share Lunch

Date for your diary: the next bring and share lunch follows the 11am Choral Holy Eucharist on Sunday 30th June. This service will be the first time Revd Josie Godfrey presides at communion following her ordination the previous day - please do come along and support her. Talk to Jane Coutts about what food needs bringing.

## Choral Evensong and Camau Bach

There will be no Camau Bach or Evensong on Tuesday this week due to an event in the Cathedral.

## Thursday Recitals

Every Thursday  
1.15pm for 45 minutes

**27 June | Baroque Trio**



# Yr wythnos

## This week

**24** Mehefin | Dygwyl Ifan Ganol  
Haf

**24 June | St John's Midsummer Day**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

**Dydd Mawrth | Tuesday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**Dydd Mercher | Wednesday | Twrog**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**Dydd Iau | Thursday**

**Silfanus, Timotheus a Titus**

**Silas, Timothy & Titus**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**1.15pm** Datganiad | Recital

**2.00pm | Eglwys y Groes** Cymun |  
Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

**Dydd Gwener | Friday**

**Dorcas, Lydia & Phebe | Phoebe**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**29** Mehefin | Dygwyl Pedr  
June | **St Peter's Day**

**11.00am** Ordeiniad | Ordination

**30** Mehefin | Y Pumed Sul wedi'r  
Drindod | **Sul Gwaddol**

**30 June | The Fifth Sunday after  
Trinity | Foundation Sunday**

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Offeren Fer, Elwyn-Edwards; Gwisgwyd  
Ddeiniol, Cooper

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Mass in G, Schubert; How lovely are the  
messengers, Mendelssohn

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Rose; Gwasanaeth  
Hwyrwl yn A | Evening Service in A,  
Stanford; Te Deum yn B-fflat | in B-flat,  
Stanford

---


## Ein gweddi

### Our prayers

**Yn glâf The sick** Andrea Foggarty; Peter  
Lewis, offeiriad | priest; Dmitro; Ivan; John  
McGovern; John Watkin Jones; Helen  
Lincoln; Bill Lovelock

**A fu farw'n diweddar The recently  
departed** Omanchi Agbaji; Grace Bush;  
Ritchard Hudson

**Gŵyl goffa Year's mind** Eiflyn Peris Owen  
(24); John Hughes, offeriad | priest (29)



## Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

### Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan yn mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

### Hysgyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

### Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

### Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddî Gyffredin (1662 ac 1984)**. Mae'r lliθοedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr (1850)** a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary (2019)** a **The Revised Psalter (1963)**.

## The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

### Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

### Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

### Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed online, and the recording made available thereafter on the Cathedral's YouTube channel. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

### Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662 and 1984)**. The lessons and Welsh-language psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The refrain of the Welsh-language psalmody is from Nicander, **Y Psallwyr (1850)**, and the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary (2019)** and **The Revised Psalter (1963)**.